# ATODLEN 2

# NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## RHAN 3

## YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL

9 Mae paragraffau 10 i 17 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol.

*Newidiadau i fangreoedd*

10 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol.

(2) Wrth benderfynu cynnydd mewn capasiti at ddibenion is-baragraff (1), mae pob ehangiad a wnaed ar ôl y dyddiad priodol i'w cymryd i ystyriaeth ynghyd â'r ehangiad arfaethedig.

(3) Y "dyddiad priodol" yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad sy'n dod bum mlynedd cyn y dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud unrhyw newid i'r ysgol a oedd yn golygu ehangu ei mangre ac y cyhoeddwyd y cynigon hynny o dan—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ehangu yn cynnwys ehangu dros dro.

11 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol os yw'r dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn isbaragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw'r cyfnod ac mae'n dechrau ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (neu'r dyddiad diweddaraf) sy'n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw "ehangu" yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.

12 Gwneud ehangu dros dro, a fyddai ar yr adeg y'i gwnaed wedi dod o fewn paragraff 10 (heblaw am y ffaith ei fod dros dro), yn ehangu parhaol.

13 Newid a wneir i fangre'r ysgol a fyddai'n lleihau capasiti'r ysgol, lle y byddai'r capasiti arfaethedig yn is na'r nifer uchaf o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad y lluniodd y cynigydd ei gynnig i wneud y newid arfaethedig.

14 At ddibenion paragraffau 10 i 13—

(a) mae cyfeiriadau at gapasiti ysgol yn gyfeiriadau at nifer y disgyblion y gall yr ysgol drefnu lle ar eu cyfer fel a ddyfernir yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) "ehangu dros dro" yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

*Anghenion addysgol arbennig*

15 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

*Trefniadau derbyn*

16 Cyflwyno trefniadau derbyn y mae adran 101(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion) yn gymwys iddynt.

*Darpariaeth fyrddio*

17 (1) Cyflwyno darpariaeth ar gyfer llety byrddio neu ei dirwyn i ben.

(2) Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 50 o ddisgyblion neu ragor neu gan 50% neu ragor.